**Pwyllgor Rhanbarth De Orllewin Cymru SWWR-03-99(p.5)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener, 8 Hydref 1999 |
| **Lleoliad:** | Siambr y Cyngor, Cyngor Sir Benfro, Neuadd y Sir, Hwlffordd |
| **Tietl:** | Cyflwyniad: Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant i Gymru gan Chwarae Teg |

**Parthed: Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant i Gymru ar ran Rhwydwaith Hyfforddiant ac Addysg Gorllewin Cymru a Grwp Mentrau Merched Bae Abertawe.**

**RHAGARWEINIAD**

Gwnaeth y ddau rwydwaith ymateb ar y cyd i'r adroddiadau LIFE ac ETAG drafft, fel cynrychiolwyr mwy na 30 o sefydliadau addysg a hyfforddiant yn Ne Gorllewin Cymru. Mae'r aelodaeth yn amrywio o ymgynghorwyr sector preifat i adrannau llywodraeth ac mae'n cynnwys ymarferwyr a darparwyr o'r sectorau cymunedol/AB/AU.

**ETAG**

At ei gilydd, rydym yn croesawu'r argymhellion yn adroddiad ETAG ond hoffem gynnig sylwadau ar y canlynol:

i. Rydym yn nodi, gyda syndod, sylw ETAG (tudalen 10 para 5) eu bod wedi cael eu siomi gan natur a chrebwyll yr ymatebion ynglí n â sectorau'r boblogaeth yn cynnwys anghenion merched. Roedd y ddau rwydwaith wedi ymateb i LIFE ac ETAG ac mae gan y Swyddfa Gymreig gopïau o adroddiadau Chwarae Teg ar anghenion hyfforddiant ac addysg merched yng Nghymru ac roeddem yn tybio y byddai'r ddogfennaeth gefndirol hon, ynghyd â'n hymatebion, yn cael eu hystyried yn ddilyniant i ddadl a gafodd ei chynnal am sawl blwyddyn bellach.

ii. Sefydlu Consortia Cymunedol i Addysg a Hyfforddiant. Rydym yn credu bod y dull gweithredu partneriaeth yn hanfodol ar gyfer darparu cyfleoedd cydlynol, gwerth gorau ac er mwyn creu ymatebion arloesol, hyblyg i angen lleol. Fodd bynnag, hoffem ofyn i'r Cynulliad sicrhau y bydd CCET yn cynnwys cynrychiolaeth o ystod eang o ddarparwyr yn yr ardal leol a bod eu gorchwyl yn cynnwys partneriaeth â CCET cyfagos er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei chydlynu'n rhanbarthol.

iii. Y mae gorchwylion grwpiau Gorllewin Cymru a Bae Abertawe yn ymwneud â chyfleoedd ar gyfer merched, ac felly rydym yn croesawu'r argymhelliad (tudalen 37) y dylai'r Cynulliad hyrwyddo cynlluniau i leihau'r disgwyliadau rôl stereoteipiedig. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer hyfforddiant cydraddoldeb i'r staff addysgu a gyrfâu. Buasem yn argymell cryfhau cyfle cyfartal ledled yr holl adroddiad ETAG, er mwyn iddo gynnwys ariannu,

gweithredu, monitro a gwerthuso.

iv. **Gyrfâu Cymru**
Rydym yn croesawu cryfhau’r cyfarwyddyd gyrfaol ar gyfer oedolion. Rydym yn gobeithio y bydd y Cynulliad yn dileu’r system sy’n caniatáu dau gyfweliad am ddim yn unig i oedolion, oherwydd nid yw hyn yn realistig yn addysgol nac yn deg ar bobl sy’n dychwelyd, sydd yn ennill incwm isel. Gofynnwn i’r dull marchnata gwasanaethau ymgynghori oedolion gael ei gryfhau, oherwydd nid yw llawer o oedolion yn gwybod eu bod yn gallu cael cyfarwyddyd, ac mae hwn yn fater pwysig ledled Cymru. Buasem hefyd yn gobeithio y byddai lefelau staffio’n cael eu cynyddu i ymdopi â’r galw.

v. **Gweithredu**
Y mae’r syniad o Gyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru yn apelio fel fframwaith cydlynol ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae pryderon yn cael eu mynegi y gellid ei ddileu o faterion lleol, na fyddai ganddo’r hyblygrwydd i ymateb yn gyflym ac na fyddai’n cyd-ffinio â fforymau eraill yn y rhanbarthau. Buasem wrth gwrs yn hoffi gweld newidiadau yn y modd y mae CHM yn gweithredu, ond ar yr un pryd maent yn adlewyrchu’r strwythurau sy’n dod i’r amlwg ar gyfer y Rhaglenni Ewropeaidd newydd ac mae ganddynt wybodaeth ranbarthol/leol.

vi. **Ariannu**
Buasem yn annog y Cynulliad i dderbyn yr argymhelliad (tudalen 11) y dylid diddymu’r gwahaniaethau rhwng cyrsiau atodlen 2 a thu allan i atodlen 2. Un o’n prif bryderon yw bod pwysigrwydd y sector addysg cymunedol/oedolion ar hyn o bryd yn cael ei danbrisio ac nid oes digon o arian ar ei gyfer, er mwyn galluogi rhannau’r boblogaeth sy’n ddifreintiedig i gael mynediad i addysg a hyfforddiant. Yn aml, hwn yw’r gris cyntaf ar yr ysgol tuag at ennill cymwysterau ac o’r herwydd mae angen ei fwyhau a’i gydnabod.

**Sian Swann, Chwarae Teg**
**Gweithredydd Prosiect - De Orllewin Cymru**